# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion Cryno : SC(3)-23-10 : 25 Tachwedd 2010

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_25_11_2010&t=0

**Amser: 9.00 – 11.00**
**Lleoliad:Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Rhodri Morgan, Gorllewin Caerdydd
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Tystion

Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Mathew Quinn, Cyfarwyddwr Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Brian J Pickett, Dyfodol Cynaliadwy, y Tîm Gweithrediadau, Cyllid
Diana Reynolds, Pennaeth Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth

### Staff y Pwyllgor

Aled Elwyn Jones, Clerc
Meriel Singleton, Dirprwy Glerc

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Brynle Williams, Karen Sinclair ac Irene James. Roedd Alun Davies a Rhodri Morgan yn dirprwyo ar eu rhan.

### Eitem 2: Cyllideb Drafft Llywodraeth Cymru – sesiwn graffu

Papur: SC(3)-23-10 p1

2.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai mewn perthynas â'i chyllideb ddrafft.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu gwybodaeth bellach am yr arbedion a wnaed drwy gynigion llwyddiannus i'r gronfa buddsoddi i arbed.

2.3 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu gwybodaeth bellach am yr arbedion cyhoeddus ehangach sydd ar gael drwy fentrau effeithlonrwydd ynni.

2.4 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu gwybodaeth bellach am silio eog a sewin yn Rhondda Fach, Cynon ac ardaloedd eraill, a'r effaith y gall y toriadau yn y gyllideb ei gael ar y gwaith o adfer yr afonydd hyn ar gyfer silio.

2.5 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu gwybodaeth bellach am y grant buddsoddi cynllunio.

### Eitem 3: Ymchwiliad i fioamrywiaeth – sesiwn dystiolaeth

Papur: SC(3)-23-10 p2

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai fel rhan o'i ymchwiliad i fioamrywiaeth yng Nghymru.

### Eitem 4: Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor y papurau a ganlyn:

Ymchwiliad i Fioamrywiaeth: y Comisiwn Ewropeaidd: 'The 2010 Assessment of Implementing the EU Biodiversity Action Plan'
SC(3)-23-10 p3

Ymchwiliad i Fioamrywiaeth: Tystiolaeth gan 'The Environment Bank'
SC(3)-23-10 p4

Ymchwiliad i Fioamrywiaeth: Tystiolaeth bellach gan Gymdeithas Parciau Cenedlaethol Cymru – gwaith y parciau cenedlaethol tuag at fioamrywiaeth SC(3)-23-10 p5

Ymchwiliad i Fioamrywiaeth: Tystiolaeth bellach gan Gymdeithas Parciau Cenedlaethol Cymru – model busnes ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol
SC(3)-23-10 p6

Amserlen y Pwyllgor Cynaliadwyedd
SC(3)-23-10 p7